Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg
This document is also available in Welsh



ENTREPRENEURSHIP
# IMPACT REPORT
2024 - 2025

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd


Take action
for nature
Join here
today

Entrepreneurship
What are you
Curious about?
Centre for

CERTIFICATE

Our Speakers
Ein Siaradwyr

Lecture Theatre 2
Theatr Ddarlithio 2
Dailiness

WINNER
Rising Founders
FUNDING COMPETITION

MetCaerdydd
AWARDS
GWOBRAU


# TABLE OF CONTENTS


3 Introduction

4 Meet the team

5 Engagement

6 - 8 Empower

9 Equip

10 Start-up Bootcamp

11 Building Entrepreneurial Capability

12 Entrepreneurship Awards

13 Rising Founders

15 Catalyst Mentorship Programme

16 Research Involvement

17 Start-up Spotlight

18 Get Involved


Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg /
This document is also available in Welsh

# INTRODUCTION

At Cardiff Metropolitan University, enterprise is at the heart of our mission to empower students, staff, and the wider community to thrive in a rapidly changing world. Each year, our Enterprise team works to embed entrepreneurial thinking across disciplines, foster innovation, and create opportunities that drive real-world impact. This annual review reflects on our activity over the past year and celebrates the progress, partnerships, and people that continue to shape our entrepreneurial ecosystem. We are thankful to be supported by Welsh Government as part of the Young Persons Guarantee to encourage and support young people to be more entrepreneurial and help those interested in starting a business take their ideas forward.

The year began with Cardiff Metropolitan University being shortlisted for the Times Higher Education Entrepreneurial University of the Year award. We are proud to have contributed to this recognition through our efforts in supporting, enhancing, and embedding entrepreneurial activity across the university.

This prestigious nomination also led to the publication of an article on the Times Higher Education Campus site, titled ‘Ways to Cultivate an Entrepreneurial Mindset in Students’, written by our dedicated Enterprise Champions.

Throughout the year, we have continued to adapt and respond to an ever-evolving environment, drawing on our own entrepreneurial resilience and creativity to support our university community. We have strengthened the impact of our work by collaborating widely, forming partnerships, and actively enabling opportunities through collective effort and shared ambition.

Increasingly, our reach is extending beyond the university itself. This year, we were invited by the Student Recruitment team to contribute to school outreach initiatives, helping to showcase Cardiff Met’s entrepreneurial offering to prospective students. With the evolution of the Welsh curriculum, we are seeing a growing number of students who already possess an entrepreneurial mindset and are eager to discover how higher education can support and advance their ambitions.

**Looking Ahead**

As we reflect on our achievements, we remain focused on building an inclusive, forward-thinking entrepreneurial culture that prepares our students and communities for the challenges and opportunities ahead. This review offers a snapshot of the energy, innovation, and impact that characterises our work, and signals our ongoing commitment to making enterprise a catalyst for positive change at Cardiff Met and beyond.

# OUR TEAM



**Isabelle Ford**
Senior Enterprise Champion



**Hannah Willis**
Senior Enterprise Champion



**Richard Godfrey**
Enterprise and Commercialisation Officer



**Neil Coles**
Senior Lecturer and Manager of Entrepreneurial Education



**Morna Manson**
Senior Enterprise and Commercialisation Officer

# ENGAGEMENT

## BUSINESS ADVICE HOUR

This year we scheduled set Business Advice Hours to work as drop in sessions for students to meet with the team to discuss their ideas and get direction on the next steps to take. These drop ins were utilised as a way to communicate and engage with early stage student entrepreneurs about the initial first steps of founding a business, and what support is available to them.

**9**
**Events**

## MEET & MINGLE

Our Meet and Mingle events continue to be one of our most popular events. These friendly and informal guest panel networking events are utilised as a way to integrate the Cardiff Met community with the external South Wales business eco-system. It provides the opportunity for students to make industry contacts, hear founding stories, and meet fellow enterprising students.

We work in collaboration with guest speakers and start up hubs to bring an array of business and start-up topics to create conversation and discussion with our speaker panel and audience.

The themes covered this year included:

- Connecting the Start-Up Community in collaboration with Welsh ICE, Alacrity and Tramshed Tech
- Purpose Led Business
- The Start Up Social
- Empowering the next Generation in collaboration with Impacting the Young

**4**
**Events**

**100+**
**Attendees**

**17**
**Speakers**



# EMPOWER

## EXTRA CURRICULAR

Our main extra curricular delivery at empower level is via our series of weekly workshops. These workshops are themed and designed to cover essential skills that are relevant to being entrepreneurial yourself, or being intrapreneurial within a workplace. This year, we ran our "Curious about ..." workshops series across 11 weeks of the academic year, utilising industry experts and guest speakers to upskill student's knowledge and capabilities around the following topics;

- Finding Clients
- Marketing
- AI and Idea Gen
- Creating social change
- Creating Video Content
- Selling at Markets
- Starting a side husle
- Finding your passion
- Becoming a freelancer
- Social Business
- Communica-ting Confidently

## CHANGEMAKERS

PROJECT CHAKRA

Our Changemakers Challenge returned in March in collaboration with Project Chakra to explore social entrepreneurship and purpose-led business. Across four weeks of interactive and engaging activity, students developed entrepreneurial ideas around social issues such as poverty, homelessness and mental health. Attendees gained skills in project development, pitching, teamwork and networking.

**100% of attendees agree or strongly agree that they were more confident in their abilities and feel better able to plan and create a social impact project**

**One attendee then joined Project Chakra for a 6 week Summer internship in India working with their community partners**


# EMPOWER

## IN CURRICULAR

Our in-curricular involvement is essential for integrating key entrepreneurial competencies into existing modules, to emphasise the relevance of these skills and provide course-specific examples to enhance understanding.

We offer 'off-the-shelf' enterprise sessions for topics such as; an entrepreneurial approach to the world, idea generation and intellectual property. These popular sessions are available to be booked in for the team to deliver to complement curriculum activity.

We have also developed a tile on the 'Shape Your Future' platform titled 'A little entrepreneurial'. This takes students through the basics of becoming entrepreneurial and helps them identify key entrepreneurial capabilities within themselves. Some courses have embedded this within their modules as a compulsory activity.



Popularity of sessions delivered across 24-25 academic year

### CASE STUDY

**Cardiff School Technologies**
**Core module Level 5**

This year we collaborated with CST to offer a 'work experience' option as part of the Level 5 core module 'Expand'. This began by using Shape Your Future and a GET2Test to recognise and build entrepreneurial skills to help with their reflective essay. Students could then choose to join a three-day bootcamp where we looked at idea generation, business planning and demonstration/pitching for feedback.

*'It's been inspirational'*

*'It's made me see that entrepreneurship is achievable and not so risky'*


# EMPOWER
## IN NUMBERS

**1123** Students empowered

**44** Curriculum based sessions

**16** Extra-curricular empower events

### Number of students engaging with empower level activity per school




CSM - Cardiff School of Management, CST - Cardiff School of Technology, CSAD - Cardiff School of Art & Design
CSESP - Cardiff School of Education & Social Policy , CSSHS - Cardiff School of Sport & Health Sciences

# EQUIP

Our Equip activity takes students and graduates from idea into business start-up. This involves providing them with support, funding and activity to take implement their ideas and begin to trade. Activity include business support meetings, funding rounds, test trading markets, start-up bootcamp and our new peer-network.

**27**
stalls across 2 days of Christmas market

**11**
Extra curricular equip events

**27**
'Flash Funds' awarded at £250 per business

**6**
individual traders across monthly community markets

**8**
individuals receiving next stage business funding

## Peer Enterprise Network



Peer Enterprise Network is a supportive, small-group initiative designed for early-stage founders who want to grow their business alongside like-minded peers.

Facilitated by Cardiff Met's Enterprise Team, these monthly in-person sessions offer a trusted space to share ideas, overcome challenges, and gain honest feedback. Together, members will develop their network, sharpen their thinking, and take accountability for their next steps.

After a pilot in May 2025, we are taking plans forward into the new academic year to have two monthly meetings; one in person and on online. As it stands we now have 23 registered members with plans to grow across the year.



**YOUR SOUNDING BOARD, SUPPORT SYSTEM AND SPACE TO GROW**

# START-UP BOOTCAMP




Cardiff Met's annual Start-Up Business Bootcamp supported over 30 student entrepreneurs through an intensive four-day programme of practical workshops.

Facilitated by the Entrepreneurship team and supported by over 20 industry experts from the South Wales start-up scene, sessions covered key topics including finance, marketing, SEO, pitching and intellectual property.
With students from across various degrees and programmes, the business ideas ranged from sports coaching, fashion, tech, illustration and design to name a few, with a high proportion being based around solving social issues within our communities.

**Confidence in running their business increased by nearly 50%**

**100% of attendees would recommend this event**

**40% of the cohort felt that their start up skill set had improved significantly**

**12 workshops facilitated by 21 industry experts**

**Top rated session: Meet the Experts**

Participants spanned disciplines from sport and fashion to tech and illustration and described the experience as transformative, praising the inclusive community and hands-on learning.

The Bootcamp also welcomed students from the Google DeepMind collaboration with the School of Technologies, joining as part of their wider eight-week programme focused on launching AI ventures.

1. **INSIGHTFUL**
2. **FUN**
3. **INFORMATIVE**

Top 3 words participants used to describe the experience

# BUILDING ENTREPRENEURIAL CAPABILITY

**The foundations of future entrepreneurial successes are happening right here, right now.**

.

Entrepreneurial capability is being supported by changes made to the periodic review process. A constructive working group consisting of Careers and Entrepreneurship colleagues, have worked with QED to advise and establish an updated process that can support future-ready graduates. The process now clearly asks for evidence of how capabilities for enterprise and employability are being developed. This means that all programmes within the process now have to confirm how they are developing entrepreneurial students through the lens of the discipline.

**Which disciplines have engaged in conversation around developing future entrepreneurial education?**

Biomedical Sciences
Dance
Education
Fashion
Fashion Marketing
Food Science
Media
Public Health Nutrition
Social Policy and Practice
Sport Management
Sport Massage
Sport PE Coaching and Analysis
Sport Performance

**QED Community**

This year the 'QED Communities' initiative has taken shape with staff from across the university sharing their personal experience of building authentic entrepreneurial activities. The QED Community for Enterprise and Entrepreneurship Education takes both a virtual repository and in person development approach. In person events have spanned Cyncoed and Llandaff sharing practice on how entrepreneurial education is being delivered across sport, media, fashion marketing and within a dedicated entrepreneurship pathway with management.

**What is entrepreneurial education and how could I deliver it within my subject?**

Entrepreneurial Education relates to authentic learning and encapsulates two areas of development. Firstly, Enterprise Education is about scaffolding opportunity to develop attributes, behaviours and competencies. Whereas Entrepreneurship Education is about the application applying those attributes, behaviours and competencies in the context of setting up a structure for social value and personal employment. The starting point is focusing on how your discipline might connect with either Enterprise or Entrepreneurship Education

# CELEBRATING SUCCESS

Our annual Entrepreneurship Awards celebrates students and graduates who have demonstrated exceptional entrepreneurial qualities across the past year. The awards are an opportunity to acknowledge students and graduates' remarkable achievements, determination, and innovation. Their efforts have not only created successful ventures but have also contributed positively to their communities and industries. This year, we received 41 applications from varying disciplines and industries, an increase from 34 applications last year.





**Aspiring Individual Award -**
Highly Commended Khalidwe Nordin
Winner Patryk Biolwas

**Passion and Purpose**
Highly Commended Danielle Forster
founder of Hope Design Solutions C.I.C





Winner Lily Morgan, founder of
Neurodiversity in Sport

**Entrepreneurial Project of the Year**
Highly commended: Primary Education
Studies Digital Champions





Winners: Lowri Kemp, Jodie Hutchings,
Amber Lewis; QuickChange Project

**Catalyst Impact**
Charlotte Manser - Charlotte Manser
Ceramics





**One to Watch**
George Clark, founder of Limitless
Performance Coaching
Tom Haynes, founder of By Tom Haynes

**Outstanding Achievement Award**
Molly Leonard - founder of Craft with Me
CIC, & Pride of Britain Award winner

# RISING FOUNDERS

Santander Universities

In partnership with Santander Universities, this year we launched our Rising Founders Competition, providing our entrepreneurial students and graduates the opportunity to pitch for a share of £10,000 funding. The competition process included submitting business documentation such as a business model canvas, financial forecasts and a business one pager, followed by an in-person pitching session to present to a panel of business advisers.

**Jenny Saunders – Big Peach Posters**
Bold, modern prints which turn meaningful places into beautiful artwork for your home.

**Karyna Lohvynenko – Nenko,**
Premium and bespoke upcycled and sustainable fashion pieces.

**Mercedes Garcia Estaben**
Digital signage and marketing agency.

**Tyler Martin – TM Coaching**
Online elite level personal training programmes.

**Laura Lawrence – Flourish with Fun**
Working with schools to embrace a holistic, creative approach to education, giving children opportunities to thrive.

**Becca Clarke – Becca Clarke Studio**
Natural dye artist & educator, Sustainable craft for physical & mental wellbeing.

**Rhana Menzies – Rhelm**
Handmade sterling silver jewellery.

**Michael Jarvis - Gateway One**
IT consultancy business specifically for SMEs.

**Finn Musgrove – FM Fitness**
Personal trainer and wellness coach offering elite level personal training.

**Emily Morgan – Emzy Music**
Singer and Songwriter.









WINNER
Rising Founders
FUNDING COMPETITION
2025
SPONSORED BY
Santander Universities

# CATALYST MENTORSHIP PROGRAMME

**39 Mentors**
**33 Mentees**

Now in its third year, the Catalyst Mentorship Programme continues to strengthen the support provided by the Entrepreneurship team to students and recent graduates as they pursue their business ambitions. This year, the programme gained valuable exposure at Cardiff Business Club, where keynote speaker Emyr Afan, a respected mentor on the programme and a leading figure in the broadcast and media sector, spoke about the vital role of mentorship in developing future business leaders.

Catalyst connects aspiring entrepreneurs with experienced mentors who offer tailored guidance to help them progress their ventures. These mentors include founders, industry professionals, and subject-matter experts who generously share their insights, provide constructive challenge, and, when appropriate, open doors through their networks.

The programme continues to benefit from the extraordinary dedication and flexibility shown by its mentors. Some are now working with graduate mentees located internationally, while others are meeting every two weeks to ensure consistent progress and accountability.

To ensure a high-quality experience for all participants, each mentor completes a bespoke training course delivered by an independent facilitator and agrees to the programme's Code of Practice. .

In recognition of the importance of long-term support, we have extended access to Catalyst, allowing graduates to apply for mentorship up to five years after completing their studies.

> **“My mentor provides a unique blend of practical advice and strategic thinking.”**

Looking ahead, and in support of the University's broader strategy to enhance the commercialisation of intellectual property developed by our academic community, we are also actively seeking mentors with experience in university spin-outs, research commercialisation, and early-stage innovation. This will ensure that our researchers and doctoral students have access to the same high-quality guidance as our student and graduate entrepreneurs.

# RESEARCH INVOLVEMENT

In alignment with Cardiff Met's Strategy 2030, we are strengthening our commitment to the commercialisation of research and innovation. Our focus is on unlocking the real-world impact of the work being carried out by our research-active academics and doctoral students, and we are actively developing pathways to support this ambition.

We are expanding our internal provision through one-to-one and small group engagement, helping colleagues explore the commercial potential of their research. This includes support in identifying, and working alongside with, experienced mentors and industry experts, and connecting with external accelerator programmes.

**2** **research active academics have completed the ICURe Discover Programme**

Our academics are already making strides: two colleagues have recently completed the ICURe Discover Programme — an intensive 10-week market discovery process supported by a £2,000 stipend. This enabled direct engagement with potential users and markets, including attendance at trade shows and valuable networking with industry stakeholders.

Another two academics have participated in the ICURe Engage Programme, which provides an excellent starting point for those exploring the commercialisation potential of their research.

We are also investing in our Doctoral community, equipping them with essential enterprise skills.

**45** Doctoral students have taken part in workshops on developing a Verbal Business Card.

This is a key tool for communicating the value of their research in professional and commercial contexts.

# START-UP SPOTLIGHT




## Becca Clarke - Natural Dye Studio

Becca Clarke has received a wide variety of support across her time at Cardiff Met. See how she made the most of the opportunities below!

**2019 – Began BA (Hons) Textiles**

**2021-22**

- 6 x workshops including; social media, e-commerce, funding
- 2 x small business toolkit 4 week programme
- 2 x stall at monthly community market
- Received £250 Flash Fund
- Christmas market trader
- Attended start-up bootcamp

**June 2022 – Started Becca Clarke: Natural Dye Studio**

**Sept 2022 - Began MA Creative Enterprise and Innovation**

**2022-23**

- 1 x workshop
- Christmas market trader
- Spring market trader
- Shortlisted for student business of the year at the Entrepreneurship Awards

**2023-24**

- 1 x small business toolkit 4 week programme
- 3 x Meet & Mingle networking events
- Awarded £1000 seed fund
- Rising Founders winner £1500

**Other support received:**

- 1-1 Business Advisor support meetings
- Involvement in Catalyst mentorship programme



“The team have provided me with everything I needed and more to build my enterprise as a student so that I would be ready to get going after graduation. As well as the opportunity for risk-free financial investment for my initial test trading, the team helped me to build confidence in myself and my ideas which has been elevated by the ongoing catalyst mentorship scheme I’m still able to access as a graduate”



# GET INVOLVED

**If you're a student:**

- Attend a weekly workshop to increase your entrepreneurial skills and knowledge
- Share your business idea with us for guidance
- Choose to study an entrepreneurship optional module

**If you're a graduate or external stakeholder:**

- Come along to one of our Meet and Mingle events to connect with founders and organisations
- Find out about how you can become part of the Catalyst Mentorship Programme

**If you're an academic or research student:**

- Explore how you may be able to commercialise your research
- Join the QED Community for Enterprise and Entrepreneurship to discuss the embedding of enterprise within the curriculum.

Contact Us

entrepreneurship@cardiffmet.ac.uk

Ariennir yn
Rhannol gan
**Lywodraeth Cymru**
Part Funded by
**Welsh Government**

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Gymraeg
This document is also available in Welsh



# ADRODDIAD EFFAITH

## ENTREPRENEURIAETH

2024 - 2025

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**
Part Funded by **Welsh Government**

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd




Entrepreneurship
What are you Curious about?


CERTIFICATE


Our Speakers
Ein Siaradwyr


Lecture Theatre 2
Theatr Ddarlithio 2
Dailiness


WINNER
Rising Founders


MetCaerdydd
AWARDS
GWOBRAU



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| 3 | Cyflwyniad |
| 4 | Cwrdd â'r tîm |
| 5 | Ymgysylltu |
| 6 - 8 | Grymuso |
| 9 | Cyfarparu |
| 10 | Bŵtcamp Dechrau Busnes |
| 11 | Meithrin gallu entrepreneuriaeth |
| 12 | Gwobrau Entrepreneuriaeth |
| 13 | Sefydlwyr y Dyfodol |
| 15 | Rhaglen Fentora Catalyst |
| 16 | Cyfranogiad Ymchwil |
| 17 | Sylw ar fusnes newydd |
| 18 | Cymerwch Rhan |

# CYFLWYNIAD

Ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd, mae menter wrth wraidd ein cenhadaeth i rymuso myfyrwyr, staff a'r gymuned ehangach mewn byd sy'n newid yn gyflym. Bob blwyddyn, mae ein tîm Menter yn gweithio i ymgorffori meddwl entrepreneuraidd ar draws disgyblaethau, meithrin arloesedd a chreu cyfleoedd sy'n gyrru effaith yn y byd go iawn. Mae'r adolygiad blynyddol hwn yn myfyrio ar ein gweithgaredd dros y flwyddyn ddiwethaf a cyn dathlu'r cynnydd, y partneriaethau a'r bobl sy'n parhau i lunio ein hecosystem entrepreneuraidd. Rydym yn ddiolchgar o gael cefnogaeth Llywodraeth Cymru fel rhan o Warant Pobl Ifanc i annog a chynorthwyo pobl ifanc i fod yn fwy entrepreneuraidd a helpu'r rhai sydd â diddordeb mewn cychwyn busnes i fwrw ymlaen a'u syniadau.

Dechreuodd y flwyddyn gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd ar y rhestr fer ar gyfer gwobr Times Higher Education Prifysgol Entrepreneuraidd y Flwyddyn. Rydym yn falch o fod wedi cyfrannu at y gydnabyddiaeth hon drwy ein hymdrechion i gefnogi, gwella a sefydlu gweithgaredd entrepreneuraidd ar draws y brifysgol.

Arweiniodd yr enwebiad mawreddog hwn hefyd at gyhoeddi erthygl ar wefan Campws Addysg Uwch y Times, dan y teitl 'Ways to Cultivate an Entrepreneurial Mindset in Students', a ysgrifennwyd gan ein Hyrwyddwyr menter ysbrydoledig.

Drwy gydol y flwyddyn, rydym wedi parhau i addasu ac ymateb i amgylchedd sy'n esblygu'n barhaus, gan dynnu ar ein gwydnwch a'n creadigrwydd entrepreneuraidd ein hunain i gefnogi cymuned ein prifysgol. Rydym wedi cryfhau effaith ein gwaith drwy gydweithio'n eang, ffurfio partneriaethau a galluogi cyfleoedd yn weithredol drwy ymdrech ar y cyd ac uchelgais a rennir.

Mae ein cyrhaeddiad, yn gynyddol, yn ymestyn y tu hwnt i'r brifysgol ei hun. Eleni, cawsom wahoddiad gan y tîm Recriwtio Myfyrwyr i gyfrannu at fentrau allgymorth ysgolion, gan helpu i arddangos cynnig entrepreneuraidd Met Caerdydd i ddarpar fyfyrwyr. Gydag esblygiad y cwricwlwm Cymraeg, rydym yn gweld nifer gynyddol o fyfyrwyr sydd eisoes â meddylfryd entrepreneuraidd ac sy'n awyddus i ddarganfod sut y gall addysg uwch gefnogi a hyrwyddo eu huchelgeisiau.

**Edrych Ymlaen**

Wrth i ni fyfyrio ar ein cyflawniadau, rydym yn parhau i ganolbwyntio ar feithrin diwylliant entrepreneuraidd cynhwysol, blaengar sy'n paratoi ein myfyrwyr a'n cymunedau ar gyfer yr heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau. Mae'r adolygiad hwn yn cynnig cipolwg ar yr egni, yr arloesedd a'r effaith sy'n nodweddu ein gwaith, ac yn arwydd o'n hymrwymiad parhaus i wneud menter yn gatalydd ar gyfer newid cadarnhaol ym Met Caerdydd a thu hwnt.

# EIN TÎM



**Isabelle Ford**
Uwch Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth



**Hannah Willis**
Uwch Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth



**Richard Godfrey**
Swyddog Mentrau a Masnacheiddio



**Neil Coles**
Uwch Ddarlithydd a Rheolwr Addysg Entrepreneuraidd



**Morna Manson**
Uwch Swyddog Mentrau a Masnacheiddio

# YMGYSYLLTU

## ORIAU CYMORTH BUSNES

Eleni, fe wnaethom drefnu Oriau Cyngor Busnes penodol i weithio fel sesiynau galw heibio i fyfyrwyr gyfarfod â'r tîm i drafod eu syniadau a chael cyfeiriad ar y camau nesaf i'w cymryd. Defnyddiwyd y sesiynau galw heibio hyn fel ffordd o gyfathrebu ac ymgysylltu â myfyrwyr entrepreneuraidd cyfnod cynnar ynghylch y camau cychwynnol o sefydlu busnes, a pha gefnogaeth sydd ar gael iddynt.

**9**

**DIGWYDDIAD**

## CWRDD A CHYMYSGU

Mae ein digwyddiadau Cyfarfod a Chymysgu yn parhau i fod yn un o'n digwyddiadau mwyaf poblogaidd. Mae'r digwyddiadau rhwydweithio panel gwadd cyfeillgar ac anffurfiol hyn fel ffordd o integreiddio cymuned Met Caerdydd ag ecosystem fusnes allanol De Cymru. Mae'n rhoi'r cyfle i fyfyrwyr wneud cysylltiadau diwydiant, clywed straeon sefydlu, a chwrdd â myfyrwyr mentrus eraill.

Rydym yn cydweithio â siaradwyr gwadd a hybiau cychwyn busnes i ddod ag amrywiaeth o bynciau busnes a chychwyn busnes i greu sgwrs a thrafodaeth gyda'n panel siaradwyr a'n cynulleidfa.

Mae'r themâu a gwmpesir eleni'n cynnwys:

- Cysylltu'r Gymuned Gychwyn Busnes mewn cydweithrediad ag ICE Cymru, Alacrity a Tramshed Tech
- Busnes a Arweinir gan Bwrpas
- 'The Start Up Social'
- Galluogi'r genhedlaeth nesaf mewn cydweithrediad ag Impacting the Young

**4** Digwyddiad

**100+** o fynychwyr

**17** o Siaradwyr



# GRYMUSO

## ALLGYRSIOL

Ein prif ddarpariaeth allgyrsiol ar lefel grymuso yw drwy ein cyfres o weithdai wythnosol. Mae'r gweithdai hyn wedi'u cynllunio ac yn cynnwys themâu i gwmpasu sgiliau hanfodol sy'n berthnasol i fod yn entrepreneuraidd eich hun, neu fod yn intrapreneuraidd o fewn gweithle. Eleni, fe wnaethon ni gynnal ein cyfres o weithdai "Chwilfrydig am ..." dros 11 wythnos o'r flwyddyn academaidd, gan ddefnyddio arbenigwyr yn y diwydiant a siaradwyr gwadd i uwchsgilio gwybodaeth a galluoedd myfyrwyr o amgylch y pynciau canlynol;

- Darganfod cwsmeriaid
- Marchnata
- AI a Chynhyrchu Syniadau
- Creu newid cymdeithasol
- Creu cynnwys fideo
- Gwerthu mewn Marchnadoedd
- Dechrau busnes ar yr ochr
- Dod o Hyd i'ch Angerdd
- Gweithio'n llawrydd
- Busnes Cymdeithasol
- Cyfathrebu'n hydreus

## YSGOGWYR NEWID

Dychwelodd ein Her Ysgogwyr Newid ym mis Mawrth mewn cydweithrediad â Phrosiect Chakra i archwilio entrepreneuriaeth gymdeithasol, a busnes a arweinir gan bwrpas. Dros bedair wythnos o weithgaredd rhyngweithiol a diddorol, datblygodd myfyrwyr syniadau entrepreneuraidd o amgylch materion cymdeithasol fel tlodi, digartrefedd ac iechyd meddwl. Enillodd y mynychwyr sgiliau mewn datblygu prosiectau, cyflwyno syniadau, gwaith tîm a rhwydweithio.

**Mae 100% o'r mynychwyr yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod yn fwy hyderus yn eu galluoedd ac yn teimlo'n fwy abl i gynllunio a chreu prosiect effaith gymdeithasol**

**Ymunodd un mynychwr â Phrosiect Chakra am interniaeth Haf 6 wythnos yn India gan weithio gyda'u partneriaid cymunedol**


# GRYMUSO

## MEWN-GWRICWLAIDD

Mae ein cyfranogiad mewn-gwricwlaidd yn hanfodol ar gyfer integreiddio cymwyseddau entrepreneuraidd allweddol i fodiwlau presennol, i bwysleisio perthnasedd y sgiliau hyn a darparu enghreifftiau penodol i'r cwrs i wella dealltwriaeth.

Rydym yn cynnig sesiynau menter 'parod' ar gyfer pynciau fel; dull entrepreneuraidd o'r byd, cynhyrchu syniadau ac eiddo deallusol. Mae'r sesiynau poblogaidd hyn ar gael i'w harchebu i'r tîm eu cyflwyno i ategu gweithgaredd cwricwlwm.

Rydym hefyd wedi datblygu teil ar y llwyfan 'Llunio Eich Dyfodol' o'r enw 'Ychydig yn entrepreneuraidd'. Mae hyn yn tywys myfyrwyr drwy hanfodion dod yn entrepreneuraidd ac yn eu helpu i nodi galluoedd entrepreneuraidd allweddol ynddynt eu hunain. Mae rhai cyrsiau wedi ymgorffori hyn yn eu modiwlau fel gweithgaredd gorfodol.




Poblogrwydd y sesiynau a gyflwynwyd ar draws blwyddyn academaidd 24-25

### ASTUDIAETH ACHOS

**Ysgol Technolegau Caerdydd**
**Modiwl Craidd Lefel 5**

Eleni, fe wnaethom gydweithio â YDCi gynnig opsiwn 'profiad gwaith' fel rhan o'r modiwl craidd lefel 5 'Ehangu'. Dechreuodd hyn drwy ddefnyddio Llunio Eich Dyfodol a GET2Test i gydnabod a meithrin sgiliau entrepreneuraidd i helpu gyda'u traethawd myfyrio. Yna gallai myfyrwyr ddewis ymuno â gwersyll hyfforddi tri diwrnod lle roeddem yn edrych ar gynhyrchu syniadau, cynllunio, busnes ac arddangos/cyflwyno adborth.

*'Mae wedi bod yn ysbrydoledig'*

*'Mae wedi gwneud i mi weld bod entrepreneuriaeth yn gyraeddadwy a ddim yn llawn risg'*


# GRYMUSO
## MEWN NIFEROEDD

**1123** o fyfyrwyr wedi'u grymuso

**44** sesiwn yn seiliedig ar y cwricwlwm

**16** digwyddiad grymuso allgyrsiol

### Nifer y myfyrwyr yn ymgysylltu â gweithgaredd lefel grymuso fesul ysgol




YRC - Ysgol Reoli Caerdydd, YDC - Ysgol Dechnolegau Caerdydd, YGDC - Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd
YAPhCC - Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd, YChGIC - Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdyd

# CYFARPARU

Mae ein gweithgaredd 'Cyfarparu' yn mynd â myfyrwyr a graddedigion o syniad i gychwyn busnes. Mae hyn yn cynnwys rhoi cefnogaeth, cyllid a gweithgaredd iddynt weithredu eu syniadau a dechrau masnachu. Mae'r gweithgaredd yn cynnwys cyfarfodydd cymorth busnes, rowndiau cyllido, marchnadoedd profi masnach, gwersyll cychwyn busnes a'n rhwydwaith cyfoedion newydd.

**27**
stondin dros 2 ddiwrnod o farchnad Nadolig

**11**
digwyddiad cyfarparu allgyrsiol

**27**
o gronfeydd flach wedi dyfarnu fesul £250 i bob busnes

**6** masnachwr unigol dros farchnadoedd cymunedol misol

**8** unigolyn yn derbyn cyllid busnes cam nesaf

## Rhwydwaith Menter Cyfoedion



Mae Rhwydwaith Menter Cyfoedion yn fenter gefnogol, grŵp bach, wedi'i dylunio ar gyfer sylfaenwyr cyfnod cynnar sydd eisiau tyfu eu busnes ochr yn ochr â chyfoedion o'r un anian.

Wedi'i hwyluso gan Dîm Menter Met Caerdydd, mae'r sesiynau misol wyneb yn wyneb hyn yn cynnig lle dibynadwy i rannu syniadau goresgyn heriau a chael adborth gonest. Gyda'i gilydd, bydd aelodau'n datblygu eu rhwydwaith, yn hogi meddwl ac yn cymryd atebolrwydd am eu camau nesaf.

Ar ôl cynllun peilot ym mis Mai 2025, rydym yn bwrw ymlaen â chynlluniau i'r flwyddyn academaidd newydd i gael dau gyfarfod misol; un wyneb yn wyneb ac un ar-lein. Fel y mae, mae gennym 23 o aelodau cofrestredig gyda chynlluniau i dyfu ar draws y flwyddyn.



**EICH SEINFWRDD, SYSTEM GEFNOGAETH, A'CH LLE I DYFU**

# BWTCAMP BUSNES

Bu i'r Bŵtcamp Dechrau Busnes blynyddol Met Caerdydd gynorthwyo dros 30 o fyfyrwyr entrepreneuriaid drwy raglen ddwys pedwar diwrnod o weithdai ymarferol.

Wedi'i hwyluso gan y tîm Entrepreneuriaeth a'i gefnogi gan dros 20 o arbenigwyr diwydiant o'r sîn dechrau busnes De Cymru, roedd y sesiynau'n ymdrin â phynciau allweddol yn cynnwys cyllid, marchnata, SEO, cyflwyno syniadau ac eiddo deallusol.

Gyda myfyrwyr o wahanol raddau a rhaglenni, roed dy syniadau busnes yn amrywio o hyfforddi chwaraeon, ffasiwn, technoleg, darlunio a dylunio i enwi ond ychydig, gyda chyfran uchel yn seiliedig ar ddatrys problemau cymdeithasol yn ein cymunedau.




Roedd cyfranogwyr y bwtcamp yn rhychwantu disgyblaethau o chwaraeon a ffasiwn i dechnoleg a dylunio a disgrifiwyd y profiad fel un trawsnewidiol, gan ganmol y gymuned gynhwysol a dysgu ymarferol.

Bu i'r Bŵtcamp hefyd groesawu myfyrwyr o gydweithrediad Google DeepMind gyda'r Ysgol Technolegau yn ymuno fel rhan o'u rhaglen wyth wythnos ehangach sy'n canolbwyntio ar lansio mentrau AI.

**Cynyddodd hyder wrth redeg eu busnes bron i 50%**

**Byddai 100% o'r mynychwyr yn argymell y digwyddiad hwn**

**Teimlai 40% o'r garfan fod eu set sgiliau cychwyn busnes wedi gwella'n sylweddol**

**12 gweithdy wedi'u hwyluso gan 21 o arbenigwyr diwydiant**

**Sesiwn â'r sgôr uchaf: Cwrdd â'r Arbenigwyr**

1 **CRAFF**

2 **HWYLIOG**

3 **ADDYSGIADOL**

Y 3 gair a ddefnyddiodd cyfranogwyr amlaf i ddisgrifio'r profiad: craff, hwyliog, addysgiadol

# MEITHRIN GALLU ENTREPRENEURAIDD

**Mae sylfeini llwyddiannau entrepreneuraidd yn y dyfodol yn digwydd yma, ar hyn o bryd.**

Mae gallu entrepreneuraidd yn cael ei gynorthwyo gan newidiadau a wnaed i'r broses adolygu gyfnodol. Mae gweithgor adeiladol sy'n cynnwys cydweithwyr Gyrfaoedd ac Entrepreneuriaeth wedi gweithio gydag Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth i gynghori a sefydlu proses wedi'i diweddaru a all gefnogi graddedigion sy'n barod ar gyfer y dyfodol. Mae'r broses bellach yn gofyn yn glir am dystiolaeth o sut mae galluoedd ar gyfer menter a chyflogadwyedd yn cael eu datblygu. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i bob rhaglen o fewn y broses gadarnhau sut maen nhw'n datblygu myfyrwyr entrepreneuraidd drwy lens y ddisgyblaeth.

**Pa ddisgyblaethau sydd wedi bod yn trafod datblygu addysg entrepreneuraidd yn y dyfodol?**

Gwyddorau Biofeddygol
Dawnsio
Addysg
Ffasiwn
Marchnata Ffasiwn
Gwyddor Bwyd
Y Cyfryngau
Maeth Iechyd Cyhoeddus
Polisi ac Ymarfer Cymdeithasol
Rheoli Chwaraeon
Tylino ym maes Chwaraeon
Chwaraeon AG Hyfforddi a Dadansoddi
Perfformiad mewn Chwaraeon

**Cymuned Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Eleni mae menter 'Cymunedau Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth' wedi datblygu gyda staff o bob cwr o'r brifysgol yn rhannu eu profiad personol o adeiladu gweithgareddau entrepreneuraidd dilys. Mae Cymuned Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer Addysg Fenter ac Entrepreneuriaeth yn defnyddio dull datblygu personol drwy storfa rithwir a thrwy ddull datblygu personol. Mae digwyddiadau wyneb yn wyneb wedi ymestyn ar draws Cyncoed a Llandaf yn rhannu arferion ar sut mae addysg entrepreneuraidd yn cael ei chyflwyno ar draws chwaraeon, y cyfryngau, marchnata ffasiwn ac o fewn llwybr entrepreneuriaeth pwrpasol gyda rheolwyr.

**Beth yw addysg entrepreneuraidd a sut y gallaf ei gyflwyno o fewn fy mhwnc?**

Mae Addysg Entrepreneuraidd yn ymwneud â dysgu dilys ac yn crynhoi dau faes datblygu. Yn gyntaf, mae Addysg Fenter yn ymwneud â sgaffaldio cyfle i ddatblygu priodoleddau, ymddygiadau a chymwyseddau. Tra bod Addysg Entrepreneuriaeth yn ymwneud a chymhwyso'r priodoleddau, yr ymddygiadau a'r cymwyseddau hynny yng nghyd-destun sefydlu strwythur ar gyfer gwerth cymdeithasol a chyflogaeth bersonol. Y man cychwyn yw canolbwyntio ar sut y gallai eich disgyblaeth gysylltu â naill ai Addysg Fenter neu Addysg Entrepreneuriaeth.

# DATHLU LLWYDDIANT

Mae ein Gwobrau Entrepreneuriaeth blynyddol yn dathlu myfyrwyr a graddedigion sydd wedi dangos rhinweddau entrepreneuraidd eithriadol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r gwobrau'n gyfle i gydnabod cyflawniadau, penderfyniad ac arloesedd rhyfeddol myfyrwyr a graddedigion. Mae eu hymdrechion nid yn unig wedi creu mentrau llwyddiannus ond maent hefyd wedi cyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau a'u diwylliannau. Eleni, cawsom 41 o geisiadau o wahanol ddisgyblaethau a diwydiannau, cynnydd o 34 cais y llynedd.





**Gwobr Darpar Unigolyn**
Canmoliaeth Uchel: Khalidwe Nordin
Enillydd: Patryk Biolwas

**Gwobr Angerdd a Phwrpas**
Canmoliaeth Uchel: Danielle Forster founder of Hope Design Solutions C.I.C





Enillydd: Lily Morgan, founder of Neurodiversity in Sport

**Prosiect Entrepreneuraidd Y Flwyddyn**
Canmoliaeth Uchel: Primary Education Studies Digital Champions





Enillwyr: Lowri Kemp, Jodie Hutchings, Amber Lewis; QuickChange Project

**Effaith Catalyst**
Enillydd: Charlotte Manser - Charlotte Manser Ceramics





**Un i Wylio**
George Clark, Sylfaenydd Limitless Performance Coaching
Tom Haynes, Sylfaenydd By Tom Haynes

**Gwobr Cyflawniad Rhagorol**
Molly Leonard - sylfaenydd Craft with Me CIC, & ac enillydd Gwobr Balchder Prydain

# SYLFAENWYR Y DYFODOL

Santander Universities

Mewn partneriaeth â Phrifysgolion Santander, eleni fe wnaethom lansio ein cystadleuaeth Rising Founders, gan roi cyfle i'n myfyrwyr a'n graddedigion entrepreneuraidd i roi cyflwyniad i geisio am gyfran o gyllid £10,000. Roedd y broses gystadlu yn cynnwys cyflwyno dogfennaeth fusnes fel cynfas model busnes, rhagolygon ariannol a thaflen un dudalen fusnes, ac yna sesiwn gyflwyno wyneb yn wyneb i'w chyflwyno i banel o gynghorwyr busnes.

**Jenny Saunders – Big Peach Posters**
Printiau beiddgar, modern sy'n troi lleoedd ystyrlon yn waith celf hardd ar gyfer eich cartref.

**Karyna Lohvynenko – Nenko,**
Darnau ffasiwn cynaliadwy premiwm wedi'u hailgylchu ac wedi'u teilwra.

**Mercedes Garcia Estaben**
Asiantaeth arwyddion a marchnata digidol.

**Tyler Martin – TM Coaching**
Rhaglenni hyfforddiant personol lefel elitaidd ar-lein.

**Laura Lawrence – Flourish with Fun**
Gweithio gydag ysgolion yn manteisio ar ddull cyfannol, creadigol o addysg, gan roi cyfleoedd i blant ffynnu.

**Becca Clarke – Becca Clarke Studio**
Arlynudd ac addysgwr lliwiau naturiol, Crefft gynaliadwy ar gyfer lles corfforol a meddyliol.

**Rhana Menzies – Rhelm**
Gemwaith arian wedi'i wneud â llaw.

**Michael Jarvis - Gateway One**
Busnes ymgynghori TG yn benodol ar gyfer busnesau bach a chanolig.

**Finn Musgrove – FM Fitness**
Hyfforddwr personol a hyfforddwr llesiant yn cynnig hyfforddiant personol lefel elitaidd.

**Emily Morgan – Emzy Music**
Cantwr a Chyfansoddwr Caneuon.












WINNER
Rising Founders
FUNDING COMPETITION
2025
SPONSORED BY
Santander Universities

# RHAGLEN FENTORA CATALYST

**39 Mentor**
**33 o Fenteion**

Bellach yn ei thrydedd flwyddyn, mae Rhaglen Mentora Catalyst yn parhau i gryfhau'r cymorth a ddarperir gan y tîm Entrepreneuriaeth i fyfyrwyr a graddedigion diweddar wrth iddynt ddilyn eu huchelgeisiau busnes. Eleni, cafodd y rhaglen sylw gwerthfawr yng Nghlwb Busnes Caerdydd, lle siaradodd y siaradwr gwadd Emyr Afan, mentor uchel ei barch ar y rhaglen a ffigur blaenllaw yn y sector darlledu a'r cyfryngau, am rôl hanfodol mentora wrth ddatblygu arweinwyr busnes y dyfodol.

Mae Catalyst yn cysylltu entrepreneuriaid uchelgeisiol â mentoriaid profiadol sy'n cynnig arweiniad wedi'i deilwra i'w helpu i ddatblygu eu mentrau. Mae'r mentoriaid hyn yn cynnwys sylfaenwyr, gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant ac arbenigwyr pwnc sy'n garedig iawn yn rhannu eu mewnwelediadau, yn darparu her adeiladol, a, phan fo'n briodol, yn agor drysau drwy eu rhwydweithiau.

Mae'r rhaglen yn parhau i elwa o ymroddiad a hyblygrwydd arbennig sydd i'w gael gan ei fentoriaid. Mae rhai nawr yn gweithio gyda menteion graddedig sydd wedi'u lleoli'n rhyngwladol, wrth i eraill yn cyfarfod bob pythefnos i sicrhau cynnydd ac atebolrwydd cyson.

Er mwyn sicrhau profiad o ansawdd uchel i bob cyfranogwr, mae pob mentor yn cwblhau cwrs hyfforddi pwrpasol a gyflwynir gan hwylusydd annibynnol ac yn cytuno i God Ymarfer y rhaglen.

I gydnabod pwysigrwydd cymorth hirdymor, rydym wedi ymestyn mynediad i Catalyst, gan ganiatáu i raddedigion wneud cais am fentora hyd at bum mlynedd ar ôl cwblhau eu hastudiaethau.

> "Mae fy mentor yn cynnig cyfuniad unigryw o gyngor ymarferol a meddal strategol."

Gan edrych ymlaen, ac i gynorthwyo strategaeth ehangach y Brifysgol i wella masnacheiddio eiddo deallusol a ddatblygwyd gan ein cymuned academaidd, rydym hefyd yn chwilio'n weithredol am fentoriaid sydd â phrofiad mewn cwmnïau deillio'r brifysgol, masnacheiddio ymchwil, ac arloesi cyfnod cynnar. Bydd hyn yn sicrhau bod gan ein hymchwilwyr a'n myfyrwyr doethuriaeth fynediad at yr un canllawiau o ansawdd uchel â'n myfyrwyr entrepreneuraidd a graddedig.

# CYFRANOGIAD YMCHWIL

Yn unol â Strategaeth Met Caerdydd 2030, rydym yn cryfhau ein hymrwymiad i fasnacheiddio ymchwil ac arloesedd. Rydym yn canolbwyntio ar ddatgloi effaith y gwaith sy'n cael ei gynnal gan ein hacademyddion ymchwil-weithredol a myfyrwyr doethuriaeth yn y byd go iawn, ac yn datblygu llwybrau i gynorthwyo'r uchelgais hon yn weithredol.

Rydym yn ehangu ein darpariaeth fewnol drwy ymgysylltu un i un a grwpiau bach, gan gynorthwyo cydweithwyr i ystyried potensial masnachol eu hymchwil. Mae hyn yn cynnwys nodi a gweithio ochr yn ochr â mentoriaid profiadol ac arbenigwyr mewn diwydiant, a chysylltu â rhaglenni cyflymydd allanol.

**2** **o academyddion ymchwil-weithredol wedi cwblhau Rhaglen Ddarganfod ICURe**

Mae ein hacademyddion eisoes yn gwneud cynnydd: mae dau gydweithiwr wedi cwblhau Rhaglen Ddarganfod ICURe yn ddiweddar — proses ddwys 10 wythnos o ddarganfod marchnadoedd a gefnogir gan lwfans o £2,000. Galluogodd hyn ymgysylltu uniongyrchol â defnyddwyr a marchnadoedd posibl, yn cynnwys mynychu sioeau masnach a rhwydweithio gwerthfawr gyda rhanddeiliaid yn y diwydiant.

Mae dau academydd arall wedi cymryd rhan yn y Rhaglen Ymgysylltu ICURe, sy'n darparu man cychwyn rhagorol i'r rhai sy'n archwilio potensial masnacheiddio eu hymchwil.

Rydym hefyd yn buddsoddi yn ein cymuned ddoethuriaeth, yn eu cyfarparu â sgiliau menter hanfodol.

**45** o fyfyrwyr Doethuriaeth wedi cymryd rhan mewn gweithdai ar ddatblygu Cerdyn Busnes Llafar.

Mae hwn yn offeryn allweddol i gyfleu gwerth eu hymchwil mewn cyd-destun proffesiynol a masnachol.

# SYLW AR FUSNES NEWYDD




## Becca Clarke - Natural Dye Studio

Mae Becca Clarke wedi derbyn amrywiaeth eang o gymorth yn ystod ei hamser ym Met Caerdydd. Gweler sut y gwnaeth y gorau o'r cyfleoedd isod!

**2019 - Dechreuodd BA Tecstilau**

**2021-22**

- 6 x gweithdy yn cynnwys; cyfryngau cymdeithasol, e-fasnach, cyllid
- 2 x rhaglen pecyn cymorth busnesau bach 4 wythnos
- 2 x stondin mewn marchnad gymunedol fisol
- Derbyniodd £250 o'r Gronfa Frys
- Masnachwr marchnad Nadolig
- Mynychodd y bŵtcamp dechrau busnes

**Mehefin 2022 - Dechreuodd Becca Clark: Natural Dye Studio**

**Medi 2022 - Dechreuodd MA Menter Greadigol ac Arloesi**

**2022-23**

- 1 x gweithdy
- Masnachwr marchnad Nadolig
- Masnachwr marchnad y Gwanwyn
- Ar y rhestr fer ar gyfer myfyriwr busnes y flwyddyn yng Ngwobrau Entrepreneuriaeth

**2023-24**

- 1 x rhaglen pecyn cymorth busnesau bach 4 wythnos
- 3 x digwyddiad rhwydweithio Cyfarfod a Chymysgu
- Dyfarnwyd £1000 o gronfa sbarduno
- Enillydd Rising Founders £1500

**Cymorth arall a dderbyniwyd:**

- Cyfarfodydd cymorth Cynghorydd Busnes 1-1
- Cymryd rhan yn Rhaglen Fentora Catalyst



“Mae'r tîm wedi rhoi popeth sydd ei angen arnaf a mwy i adeiladu fy menter fel myfyriwr er mwyn i mi fod yn barod i fynd ati ar ôl i mi raddio. Yn ogystal â'r cyfle am fuddsoddiad ariannol heb risg ar gyfer profi'r farchnad, fe wnaeth y tîm helpu fi i fagu hyder ynof fy hun a fy syniadau ac mae'r cynllun mentoriaeth catalyst wedi mynd â hynny i'r lefel nesaf ac rwy'n dal i allu cael mynediad iddo fel myfyriwr graddedig.”



# CYMERWCH RAN

**Os ydych chi'n fyfyriwr:**

- Mynychwch weithdy wythnosol i gynyddu eich sgiliau a'ch gwybodaeth entrepreneuraidd
- Rhannwch eich syniad busnes gyda ni am arweiniad
- Dewiswch astudio modiwl opsiynol entrepreneuriaeth

**Os ydych chi'n raddedig neu'n randdeiliad allanol:**

- Dewch draw i un o'n digwyddiadau Cwrdd a Chymysgu i gysylltu â sylfaenwyr a sefydliadau
- Dysgwch sut allwch chi ddod yn rhan o Raglen Fentora Catalyst

**Os ydych chi'n fyfyriwr academaidd neu ymchwil:**

- Ystyriwch sut y gallech chi fasnacheiddio'ch ymchwil
- Ymunwch â Chymuned Ansawdd mewn Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer Menter ac Entrepreneuriaeth i drafod ymgorffori menter yn y cwricwlwm.

Cysylltwch â ni

entrepreneurship@cardiffmet.ac.uk

Ariennir yn
Rhannol gan
**Lywodraeth Cymru**
Part Funded by
**Welsh Government**

Cardiff Metropolitan University | Prifysgol Metropolitan Caerdydd